**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

## CYNNWYS

### RHAN 1
HYBU A HWYLUSO DEFNYDD O'R GYMRAEG


1 Targedau strategaeth y Gymraeg: miliwn o siaradwyr a chynnydd mewn defnydd
2 Adrodd ar y targedau yn strategaeth y Gymraeg
3 Cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg
4 Adolygu safonau'r Gymraeg


### RHAN 2
DISGRIFIO GALLU YN Y GYMRAEG


5 Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin
6 Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg
7 Cyhoeddi ac adolygu'r Cod


### RHAN 3
ADDYSG GYMRAEG

*Cyflwyniad*


8 Trosolwg a dehongli


*Categorïau iaith ysgolion*


9 Categorïau iaith ysgolion
10 Y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori iaith
11 Y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith
12 Asesu cynnydd tuag at gyflawni nodau dysgu Cymraeg
13 Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion


*Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg*


14 Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion
15 Cymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg
16 Adolygu a diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg
17 Diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg er mwyn newid categori iaith ysgol
18 Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad dros dro

19 Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad pellach

*Ysgolion arbennig*

20 Ysgolion arbennig cymunedol: cynlluniau a dynodi categori iaith

*Cofrestr*

21 Cofrestr categorïau iaith ysgolion

*Addysg drochi hwyr*

22 Addysg drochi hwyr yn y Gymraeg

**RHAN 4**

CYNLLUNIO ADDYSG A DYSGU CYMRAEG

*Y Fframwaith Cenedlaethol*

23 Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg
24 Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol
25 Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach am gynnwys, adolygu a diwygio
26 Ymgynghori a chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol
27 Adrodd ar y Fframwaith Cenedlaethol

*Cynlluniau lleol*

28 Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg
29 Cyfnod cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg
30 Cymeradwyo cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg
31 Cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg
32 Adolygu a diwygio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg
33 Rheoliadau
34 Diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

*Cyffredinol*

35 Dehongli

**RHAN 5**

YR ATHROFA DYSGU CYMRAEG GENEDLAETHOL

36 Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

*Amcan a swyddogaethau'r Athrofa Dysgu Cymraeg*

37 Hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes

38 Swyddogaethau ychwanegol
39 Hybu cyfle cyfartal
40 Hybu arloesedd a gwelliant parhaus
41 Hybu cydlafurio mewn perthynas â dysgu Cymraeg
42 Hybu cydlynu mewn perthynas â dysgu Cymraeg
43 Cymhwyso safonau'r Gymraeg

*Cyffredinol*

44 Cynllun strategol
45 Adroddiad blynyddol

**RHAN 6**

CYFFREDINOL

46 Cyfarwyddydau a chanllawiau
47 Diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
48 Y Deddfau Addysg
49 Dehongli
50 Cyhoeddi
51 Anfon dogfennau
52 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon
53 Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.
54 Dod i rym
55 Enw byr

Atodlen 1 - Mathau o Ddefnyddiwr Cymraeg a Lefelau Cyfeirio Cyffredin
Atodlen 2 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy bennu targed i gynyddu nifer y siaradwyr i 1 miliwn erbyn 2050, drwy osod lefelau cyfeirio cyffredin i ddisgrifio gallu, drwy ddarparu ar gyfer fframwaith cenedlaethol a chynlluniau strategol lleol ar gyfer gwella addysg Gymraeg, drwy gyflwyno system o gategoreiddio'r addysg Gymraeg a ddarperir gan ysgolion, drwy bennu nodau dysgu Cymraeg i ysgolion anelu atynt drwy gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg, a thrwy sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel corff statudol i gefnogi dysgu Cymraeg gydol oes.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

### HYBU A HWYLUSO DEFNYDD O'R GYMRAEG

**1 Targedau strategaeth y Gymraeg: miliwn o siaradwyr a chynnydd mewn defnydd**

(1) Rhaid i'r strategaeth ar hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("strategaeth y Gymraeg")—

(a) cynnwys y targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru i 1 miliwn erbyn 2050;

(b) pennu targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, gan gynnwys—

(i) yn y gweithle;

(ii) yn gymdeithasol;

(c) pennu targedau ar gyfer—

(i) cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg;

(ii) cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg;

(d) cynnwys y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i annog trosglwyddo'r Gymraeg—

(i) yn y cartref,

(ii) rhwng y cenedlaethau, a

(iii) yn y gymuned;

(e) pennu meini prawf i fesur y cynnydd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau.

(2) Wrth nodi eu cynigion ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni yn strategaeth y Gymraeg yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y targedau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(a) i (c).

(3) Rhaid i'r cynllun a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys disgrifiad o'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyfrannu at gyflawni'r targedau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(a) a (b) (a gweler Rhan 4 mewn cysylltiad â'r targedau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(c)).

(4) Yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006—

(a) yn is-adran (1), yn lle "("the Welsh language strategy")", mewnosoder "to be known as "the Welsh language strategy" or "strategaeth y Gymraeg"";

(b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) See Part 1 of the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (asc []) (referred to in Welsh as Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc [])) for further requirements relating to the Welsh language strategy.";

(c) yn is-adran (5), yn lle "consult such" rhodder "consult the Welsh Language Commissioner and such other";

(d) ar ôl is-adran (10) mewnosoder—

"(11) In subsection (5), the reference to the "Welsh Language Commissioner" means the commissioner appointed under section 2 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) (referred to in Welsh as Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1))."

**2 Adrodd ar y targedau yn strategaeth y Gymraeg**

(1) O leiaf unwaith pob 5 mlynedd, rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 78(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ddadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru gan gynnwys—

(a) asesiad o nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn ardal pob awdurdod lleol;

(b) asesiad o'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru;

(c) asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y targedau y cyfeirir atynt yn adran 1(1)(a) i (c) yn cael eu cyflawni drwy gyfeirio at y meini prawf a bennir gan y strategaeth;

(d) gwybodaeth am y newid, yn ystod y cyfnod ers yr asesiad blaenorol, yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ardal pob awdurdod lleol.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad nad yw targed yn debygol o gael ei gyflawni, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, datganiad.

(3) Rhaid gosod a chyhoeddi'r datganiad cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad sy'n cynnwys y dadansoddiad y cyfeirir ato yn is-adran (1) gerbron Senedd Cymru (o dan adran 78(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

(4) Rhaid i'r datganiad—

(a) esbonio pam nad yw'r targed yn debygol o gael ei gyflawni, a

(b) nodi'r camau pellach y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd, i gyflawni'r targed.

**3 Cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg**

(1) At ddibenion adrannau 1 a 2, mae nifer y siaradwyr Cymraeg i'w gyfrifo ar sail data a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, ond wrth gyfrifo nifer y siaradwyr rhaid ystyried unrhyw ddata perthnasol sy'n deillio o gyfrifiad a gynhelir yn unol â Deddf Cyfrifiad 1920 (p. 41).

(2) At ddibenion adrannau 1 a 2, mae pa un a yw person yn siaradwr Cymraeg i'w benderfynu—

(a) o ran personau sy'n 16 oed a throsodd, ar sail hunanasesiad;

(b) o ran plant sydd o dan 16 oed, ar sail hunanasesiad, asesiad rhiant neu ofalwr y plentyn, neu unrhyw ddull arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau ar asesiadau o dan is-adran (2)(a) a(b).

(4) Wrth lunio canllawiau o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r Cod a lunnir o dan adran 6.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (3)—

(a) wrth i'r data y cyfeirir atynt yn is-adran (1) gael eu casglu, a

(b) wrth i'r asesiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) (a) a (b) gael eu cyflawni.

**4 Adolygu safonau'r Gymraeg**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r safonau a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio—

(a) un neu ragor o'r safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu o ran y Gymraeg er mwyn—

(i) hwyluso cyflawni targed a bennir o dan y Rhan hon, neu

(ii) adlewyrchu'r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6;

(b) un neu ragor o safonau hybu'r Gymraeg er mwyn hwyluso cyflawni targed a bennir o dan y Rhan hon.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r adolygiad yn is-adran (1);

(b) cwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Cod o dan adran 7 am y tro cyntaf.

## RHAN 2

## DISGRIFIO GALLU YN Y GYMRAEG

**5 Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin**

(1) Yn unol â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd, mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn pennu—

(a) mathau o ddefnyddiwr Cymraeg (sef defnyddiwr Cymraeg sylfaenol, defnyddiwr Cymraeg annibynnol, a defnyddiwr Cymraeg hyfedr), a

(b) lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu y mathau hynny o ddefnyddiwr Cymraeg, a disgrifiad o nodweddion cyffredinol pob lefel.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1.

(3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer yn is-adran (2) oni bai bod angen gwneud hynny mewn ymateb i newid a wneir i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

(4) Yn y Rhan hon, ystyr y "Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd" yw'r fframwaith a gyhoeddir gan Gyngor Ewrop, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a gynhwysir yn y ddogfen "Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment (2001)", ac a ddisgrifir ymhellach neu a ddiweddarwyd—

(a) yn y ddogfen "Council of Europe (2020), Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment - Companion volume", neu

(b) mewn unrhyw ddogfen gyffelyb a gyhoeddir gan Gyngor Ewrop.

**6 Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg sy'n seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

(2) Rhaid i'r Cod—

(a) esbonio sut i ddefnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin a nodir yn y Tabl yn Atodlen 1, a

(b) disgrifio nodweddion penodol, er enghraifft deall iaith lafar neu ysgrifenedig neu'r gallu i ryngweithio ar lafar, ar gyfer pob lefel cyfeirio gyffredin.

(3) Caiff y Cod hefyd gynnwys unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â disgrifio gallu yn y Gymraeg.

**7 Cyhoeddi ac adolygu'r Cod**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r Cod sydd mewn grym am y tro;

(b) adolygu'r Cod o bryd i'w gilydd, a chânt ei ddiwygio fel y bo'n briodol.

(2) Cyn cyhoeddi'r Cod, neu'r Cod fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

# RHAN 3

## ADDYSG GYMRAEG

*Cyflwyniad*

### 8 Trosolwg a dehongli

(1) Mae'r Rhan hon—

(a) yn gwneud darpariaeth ynghylch dynodi categori iaith i bob ysgol (gweler adrannau 9 i 13), ac, yn unol â hynny, ynghylch—

(i) y swm o addysg Gymraeg sydd i'w ddarparu yn yr ysgol, a

(ii) nod dysgu Cymraeg yr ysgol;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gael cynllun cyflawni addysg Gymraeg (gweler adrannau 14 i 19) sy'n nodi (ymhlith pethau eraill) sut y mae'r ysgol yn bwriadu cyflawni ei nod dysgu Cymraeg;

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr o gategori iaith pob ysgol yn ei ardal (gweler adran 21);

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol hybu addysg drochi hwyr yn y Gymraeg (gweler adran 22).

(2) At ddibenion y Rhan hon—

(a) ystyr "addysg Gymraeg" yw—

(i) addysgu'r Gymraeg, a

(ii) addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg,

mewn ysgol, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol;

(b) mae cyfeiriadau at "ysgol" yn golygu ysgol a gynhelir.

*Categorïau iaith ysgolion*

### 9 Categorïau iaith ysgolion

(1) Dynodir categori iaith i bob ysgol, yn unol â'r Rhan hon, sy'n penderfynu—

(a) yn unol ag adran 10, y swm o addysg Gymraeg a ddarperir yn yr ysgol, a

(b) nod dysgu Cymraeg yr ysgol (gweler adran 11).

(2) Y categorïau iaith yw—

(a) y categori "Prif Iaith - Cymraeg";

(b) y categori "Dwy Iaith";

(c) y categori "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg".

(3) Caniateir dynodi mwy nag un categori iaith ar gyfer ysgol a chaiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth mewn perthynas ag ysgol o'r fath, gan gynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso'r Rhan hon gydag addasiadau.

(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i ysgol arbennig gymunedol (ond gweler adran 20).

**10 Y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori iaith**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir ar gyfer pob categori iaith, gan gynnwys isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

(2) Rhaid pennu'r swm—

(a) drwy gyfeirio at yr addysg Gymraeg fel canran o'r addysg a hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn ystod sesiynau ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, a

(b) ar ffurf amrediad ar gyfer pob categori iaith.

(3) Wrth bennu'r amrediad ar gyfer y categori iaith "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", ni chaiff Gweinidogion Cymru bennu isafswm ar gyfer yr amrediad sy'n llai na 10%.

(4) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod yr ysgol yn darparu swm o addysg Gymraeg sydd o fewn yr amrediad a bennir ar gyfer y categori iaith a ddynodir i'r ysgol ymhob un o'r blynyddoedd ysgol y mae cynllun cyflawni addysg Gymraeg i gael effaith ar ei chyfer (gweler adrannau 14(3) a 15(5)).

(5) Yn yr adran hon, ystyr "sesiynau ysgol" yw sesiynau ysgol sy'n dechrau ac yn dod i ben ar yr amserau hynny a benderfynir o bryd i'w gilydd yn unol ag adran 32C o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).

**11 Y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith**

(1) Y nod dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" yw bod eu disgyblion yn ddefnyddwyr Cymraeg hyfedr, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol (hynny yw, yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin C1 neu C2).

(2) Y nod dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion categori "Dwy Iaith" yw bod eu disgyblion—

(a) yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol (hynny yw, yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2), a

(b) yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol, erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(3) Y nod dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yw bod eu disgyblion—

(a) yn ddefnyddwyr Cymraeg sylfaenol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol, hyd at ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, ond

(b) ar ôl y dyddiad hwnnw—

(i) yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol (hynny yw, yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2), a

(ii) yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol, erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(4) Mewn perthynas â'r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgol gynradd, tybir bod disgyblion yr ysgol yn parhau ag addysg mewn ysgolion o'r un categori iaith hyd nes iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

(5) Yn yr adran hon, mae i "lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar" yr ystyr a roddir—

(a) yn y Tabl yn Atodlen 1, gan yr ail frawddeg yn y golofn "Nodweddion cyffredinol" ar gyfer lefel cyfeirio gyffredin B2, i'r graddau y mae'n gymwys i ryngweithio llafar, a

(b) gan unrhyw ddarpariaeth bellach ynghylch y lefel cyfeirio gyffredin honno, a rhyngweithio llafar, yn y Cod a lunnir o dan adran 6.

**12 Asesu cynnydd tuag at gyflawni nodau dysgu Cymraeg**

(1) Caiff trefniadau asesu a wneir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 56 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) wneud darpariaeth at ddiben sicrhau cynnydd disgyblion tuag at gyflawni nod dysgu Cymraeg ysgol.

(2) At y diben hwn, caiff y trefniadau asesu (ymysg pethau eraill)—

(a) cyfeirio at fath o ddefnyddiwr Cymraeg neu lefel cyfeirio gyffredin a nodir yn y Tabl yn Atodlen 1;

(b) cyfeirio at y Cod a lunnir o dan adran 6;

(c) gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â disgyblion sy'n mynychu ysgol sydd ag esemptiad dros dro o'r gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg o dan adran 18 neu 19.

(3) Yn adran 7 (cod cynnydd) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Wrth lunio'r Cod Cynnydd o dan is-adran (1), a'i gadw o dan adolygiad o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r nodau dysgu Cymraeg a osodir gan adran 11 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc [ ])."

**13 Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd drwy reoliadau—

(a) diwygio adran 9 er mwyn—

(i) ychwanegu categori iaith, neu

(ii) diwygio categori iaith;

(b) diwygio adran 10(3) er mwyn cynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

(3) Os yw rheoliadau o dan is-adran (2)(a) yn ychwanegu neu'n diwygio categori iaith, ni chaiff rheoliadau o dan adran 10(1) bennu isafswm ar gyfer amrediad y categori iaith hwnnw sy'n llai na'r isafswm a bennir am y tro yn adran 10(3) ar gyfer categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

(4) Os yw rheoliadau o dan is-adran (2)(a)(i) yn ychwanegu categori iaith rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio adran 11 i bennu nod dysgu Cymraeg ar gyfer y categori a ychwanegir.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ydynt am arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan is-adran (2)(b) o fewn y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y daw'r rheoliadau cyntaf o dan adran 10(1) i rym, ac wedi hynny, o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn eu penderfyniad diweddaraf.

*Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg*

**14 Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol lunio cynllun cyflawni mewn perthynas â'r Gymraeg ("cynllun cyflawni addysg Gymraeg")—

(a) sy'n nodi categori iaith ar gyfer yr ysgol (gan ystyried y swm o addysg Gymraeg a ddarperir ar y pryd gan yr ysgol);

(b) sy'n nodi'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol ar yr adeg y llunnir y cynllun cyflawni;

(c) sy'n esbonio sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 10(4) (darparu'r swm o addysg Gymraeg a bennir ar gyfer categori iaith yr ysgol);

(d) sy'n nodi'r camau y bydd y corff llywodraethu yn eu cymryd i hybu addysg drochi hwyr yn unol ag adran 22(3);

(e) sy'n nodi cynigion y corff llywodraethu—

(i) ar y swm o addysg Gymraeg y bwriedir ei ddarparu yn yr ysgol yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun cyflawni yn cael effaith, a

(ii) ar gynnal y swm hwnnw o addysg Gymraeg, a chynyddu'r swm pan fo hynny'n rhesymol ymarferol;

(f) sy'n nodi cynigion y corff llywodraethu, at ddiben cyflawni nod dysgu Cymraeg yr ysgol, ar sut y bydd yn—

(i) hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol;

(ii) hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol;

(iii) hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol;

(g) sy'n nodi cynigion y corff llywodraethu ar gyfer paratoi am y newid, os yw'n bwriadu cynyddu'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol gyda golwg ar newid ei chategori iaith (gweler adran 17).

(2) Wrth lunio'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol—

(a) rhoi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (gweler adran 28);

(b) ymgynghori â'r canlynol—

(i) pennaeth yr ysgol (os nad yw'r person hwnnw yn aelod o'r corff llywodraethu);

(ii) disgyblion cofrestredig yr ysgol;

(iii) rhieni'r disgyblion cofrestredig;

(iv) staff yr ysgol;

(v) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(vi) unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

(3) Mae pob cynllun cyflawni addysg Gymraeg yn cael effaith am gyfnod o dair blwyddyn ysgol, ac mae—

(a) cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf yn dechrau â'r flwyddyn ysgol a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, a

(b) cyfnod pob cynllun cyflawni dilynol yn dechrau â'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau yn union ar ôl i'r cynllun cyflawni blaenorol ddod i ben.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) diwygio hyd y cyfnod y mae cynllun cyflawni addysg Gymraeg yn cael effaith amdano;

(b) gwneud darpariaeth am ffurf a chynnwys cynllun cyflawni.

(5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i ysgol arbennig gymunedol (ond gweler adran 20).

**15 Cymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gyflwyno drafft o'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg a lunnir o dan adran 14 i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(2) Rhaid cyflwyno'r drafft o leiaf 9 mis cyn dechrau'r cyfnod y mae'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg i gael effaith amdano.

(3) Wrth gyflwyno'r drafft, rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol ag adran 14(2)(b).

(4) Caiff yr awdurdod lleol—

(a) cymeradwyo'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg fel y'i cyflwynwyd (gan gynnwys y categori iaith a bennir ynddo),

(b) cymeradwyo'r cynllun cyflawni ag addasiadau y cytunwyd arnynt â chorff llywodraethu'r ysgol, neu

(c) gwrthod y cynllun cyflawni a rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu i ailystyried y cynllun cyflawni.

(5) Effaith cymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgol o dan is-adran (4)(a) neu (b) yw dynodi'r categori iaith a nodir yn y cynllun cyflawni fel categori iaith yr ysgol.

(6) Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni addysg Gymraeg, rhaid i'r cyfarwyddyd o dan is-adran (4)(c)—

(a) rhoi rhesymau dros y penderfyniad;

(b) pennu erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol.

(7) Mae is-adrannau (4) i (6) yn gymwys i gynllun cyflawni addysg Gymraeg drafft a gyflwynir gan gorff llywodraethu ysgol mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (4)(c) yn yr un modd ag y maent yn gymwys i ddrafft a gyflwynir o dan is-adran (1).

(8) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gyhoeddi'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg a gymeradwyir.

(9) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion a nodir yn rhinwedd adran 14(1)(e), (f) ac (g) yn y cynllun cyflawni addysg Gymraeg a gymeradwyir.

**16 Adolygu a diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol adolygu ei gynllun cyflawni addysg Gymraeg o leiaf unwaith cyn diwedd y cyfnod y mae'r cynllun cyflawni yn cael effaith amdano.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol ddiwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg yn unol â'r adran hon (ond gweler adran 17 am ddarpariaeth bellach os yw'r corff llywodraethu yn bwriadu newid categori iaith yr ysgol).

(3) Wrth adolygu neu ddiwygio'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol roi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (gweler adran 28).

(4) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gyflwyno drafft o gynllun cyflawni addysg Gymraeg diwygiedig yr ysgol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(5) Wrth gyflwyno'r drafft, rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu crynodeb o'r diwygiadau a gynigir a'r rhesymau drostynt.

(6) Caiff yr awdurdod lleol—

(a) cymeradwyo'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg diwygiedig fel y'i cyflwynwyd,

(b) cymeradwyo'r cynllun cyflawni diwygiedig ag addasiadau y cytunwyd arnynt â'r corff llywodraethu, neu

(c) gwrthod y cynllun cyflawni diwygiedig a rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu i ailystyried.

(7) Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni addysg Gymraeg diwygiedig, o ran y cyfarwyddyd o dan is-adran (6)(c)—

(a) rhaid iddo rhoi rhesymau dros y penderfyniad;

(b) rhaid iddo bennu erbyn pryd y mae rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol—

(i) cyflwyno drafft pellach o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol, neu

(ii) hysbysu'r awdurdod lleol nad yw bellach yn cynnig diwygio ei gynllun cyflawni;

(c) caiff ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol ymgynghori â'r personau a restrir yn adran 14(2)(b) os nad oes ymgynghoriad o'r fath wedi digwydd.

(8) Mae is-adrannau (5) i (7) yn gymwys i gynllun cyflawni addysg Gymraeg diwygiedig a gyflwynir mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (6)(c) yn yr un modd ag y maent yn gymwys i gynllun cyflawni diwygiedig a gyflwynir o dan is-adran (4).

(9) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol—

(a) cyhoeddi'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg a gymeradwyir, fel y'i diwygiwyd;

(b) cymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion a nodir yn rhinwedd 14(1)(e), (f) ac (g) yn y cynllun cyflawni addysg Gymraeg a gymeradwyir, fel y'i diwygiwyd.

**17 Diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg er mwyn newid categori iaith ysgol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo corff llywodraethu ysgol yn cynnig diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol at ddiben newid categori iaith yr ysgol.

(2) Ni chaniateir newid categori iaith ysgol—

(a) o gategori "Dwy Iaith" i gategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg";

(b) o gategori "Prif Iaith – Cymraeg" i gategori "Dwy Iaith" neu gategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

(3) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â'r personau a restrir yn adran 14(2)(b) cyn cyflwyno cynllun cyflawni diwygiedig drafft i'r awdurdod lleol o dan adran 16(4).

**18 Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad dros dro**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo corff llywodraethu ysgol—

(a) yn llunio neu'n diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg cyntaf yr ysgol, a

(b) o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer ysgol categori iaith "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" (gweler adran 10).

(2) Rhaid i'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg drafft a gyflwynir i'r awdurdod lleol o dan adran 15(1) neu 16(4) nodi—

(a) y rhesymau pam, ym marn corff llywodraethu'r ysgol, nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg;

(b) cynigion y corff llywodraethu ar gyfer sicrhau y gall yr ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg (o leiaf);

(c) erbyn pa ddyddiad y bydd y cynigion y cyfeirir atynt ym mharagraff (b) wedi cael eu gweithredu, dyddiad sydd heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o dair blynedd y mae'r cynllun cyflawni yn cael effaith;

(d) gwybodaeth am y gefnogaeth y mae ei hangen ym marn y corff llywodraethu er mwyn galluogi'r ysgol i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg.

(3) Os yw'r awdurdod lleol (yn unol ag adran 15 neu 16) yn cymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg ar gyfer ysgol sy'n nodi'r materion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)—

(a) mae corff llywodraethu'r ysgol wedi'i esemptio rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg tan ddiwedd y cyfnod o dair blynedd y mae'r cynllun cyflawni cyntaf yn cael effaith amdano (gweler adran 10);

(b) bernir mai'r categori iaith "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" a ddynodir yn gategori iaith yr ysgol ar gyfer y cyfnod hwnnw;

(c) rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion a nodir yn y cynllun cyflawni yn unol ag is-adran (2)(b) erbyn y dyddiad a nodir yn unol ag is-adran (2)(c).

**19 Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad pellach**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo corff llywodraethu ysgol sydd wedi ei hesemptio yn unol ag adran 18(3)(a)—

(a) yn llunio ail gynllun cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol, a

(b) yn parhau o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg ar gyfer ysgol categori iaith "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg".

(2) Rhaid i'r ail gynllun cyflawni addysg Gymraeg a gyflwynir i'r awdurdod lleol o dan adran 15(1) nodi —

(a) pam na chafodd y cynigion y cyfeirir atynt yn adran 18(2)(b) eu gweithredu, neu pam nad oedd y cynigion hynny wedi llwyddo;

(b) pam, ym marn y corff llywodraethu, nad yw'n rhesymol ymarferol o hyd i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg;

(c) cynigion pellach y corff llywodraethu ar gyfer sicrhau y gall yr ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg (o leiaf);

(d) erbyn pa ddyddiad y bydd y cynigion y cyfeirir atynt ym mharagraff (c) wedi eu gweithredu, dyddiad sydd heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o dair blynedd y mae'r cynllun cyflawni drafft yn cael effaith amdano;

(e) gwybodaeth am y gefnogaeth y mae ei hangen ym marn y corff llywodraethu er mwyn gallu darparu'r isafswm o addysg Gymraeg.

(3) Os yw'r awdurdod lleol (yn unol ag adran 15) yn cymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg ar gyfer ysgol sy'n nodi'r materion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)—

(a) mae corff llywodraethu'r ysgol wedi ei esemptio rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg tan y dyddiad a nodir yn y cynllun cyflawni cyntaf yn unol ag is-adran (2)(d);

(b) bernir mai'r categori iaith "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" a ddynodir yn gategori iaith yr ysgol tan y dyddiad a nodir yn y cynllun cyflawni yn unol ag is-adran (2)(d);

(c) rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion a nodir yn y cynllun cyflawni yn unol ag is-adran (2)(c), erbyn y dyddiad a nodir yn unol ag is-adran (2)(d);

(d) rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r canlynol i Weinidogion Cymru—

(i) y rhesymau pam y mae cynllun cyflawni yr ysgol wedi ei gymeradwyo;

(ii) gwybodaeth am unrhyw gefnogaeth sydd wedi ei chynnig i gorff llywodraethu'r ysgol.

*Ysgolion arbennig*

**20 Ysgolion arbennig cymunedol: cynlluniau a dynodi categori iaith**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol lunio cynllun mewn perthynas â'r Gymraeg ("cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol") sy'n nodi—

(a) y swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol;

(b) cynigion y corff llywodraethu ar sut y bydd—

(i) yn hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol;

(ii) yn hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol, gan gynnwys ynghylch—

(a) hyd ac amseriad cynllun;

(b) ymgynghori ar gynllun;

(c) cymeradwyo cynllun;

(d) adolygu a diwygio cynllun.

(3) Ni ddynodir categori iaith i ysgol arbennig gymunedol yn unol â'r Rhan hon, oni bai bod corff llywodraethu'r ysgol yn dymuno i gategori iaith gael ei ddynodi ("dynodiad gwirfoddol").

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth mewn perthynas â dynodiad gwirfoddol, gan gynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso'r Rhan hon gydag addasiadau.

*Cofrestr*

**21 Cofrestr categorïau iaith ysgolion**

(1) Rhaid i awdurdod lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr sy'n cynnwys y materion canlynol—

(a) categori iaith pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, fel a nodir yng nghynllun cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol a gymeradwywyd o dan adran 15 neu 16;

(b) cofnod o bob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod sydd wedi ei hesemptio dros dro, o dan adran 18 neu 19, rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg, a'r dyddiad y daw'r esemptiad i ben;

(c) categori iaith arfaethedig ysgolion yn ei ardal y gwneir cynigion ar eu cyfer o dan adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) (cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd);

(d) categori iaith arfaethedig ysgolion arfaethedig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gofrestr o dan baragraff (c) ond sydd o ddisgrifiad a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (3).

(2) Yn adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), ar ôl is-adran (2), mewnosoder—

"(3) Gweler adran 21(1) o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc[ ]) am ddarpariaeth ynghylch cofrestr o gategorïau iaith arfaethedig ysgolion y gwnaed cynigion yn eu cylch o dan yr adran hon."

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am gofrestr a gynhelir o dan is-adran (1) mewn cysylltiad ag—

(a) y materion sydd i'w cynnwys yn y gofrestr;

(b) ffurf y gofrestr;

(c) sut a phryd i gyhoeddi'r gofrestr.

*Addysg drochi hwyr*

**22 Addysg drochi hwyr yn y Gymraeg**

(1) Yn yr adran hon, ystyr "addysg drochi hwyr" yw addysg ddwys yn y Gymraeg—

(a) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol sy'n 7 oed o leiaf ac sy'n mynychu neu yn dymuno mynychu ysgol categori "Prif Iaith – Cymraeg" neu ysgol categori "Dwy Iaith", a

(b) sy'n trochi plant yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i elwa'n llawn o addysg mewn ysgol categori "Prif Iaith – Cymraeg" neu ysgol categori "Dwy Iaith".

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol—

(a) annog galw yn ei ardal am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi;

(b) gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r personau canlynol ynghylch yr addysg drochi hwyr sydd ar gael yn ei ardal—

(i) plant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal,

(ii) rhieni plant yn ei ardal,

(iii) plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ond sy'n byw y tu allan i'w ardal,

(iv) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a

(v) unrhyw bersonau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol;

(c) cymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr sy'n ateb y galw amdani yn ei ardal.

(3) Pan fo corff llywodraethu ysgol wedi cael gwybodaeth (yn rhinwedd is-adran (2)(b)(iv)) am yr addysg drochi hwyr sydd ar gael yn ardal yr awdurdod lleol y mae'r ysgol wedi ei lleoli ynddi, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod disgyblion yr ysgol a'u rhieni yn ymwybodol—

(a) o'r addysg sydd ar gael, a

(b) sut i gael mynediad at yr addysg honno.

(4) Gweler hefyd adran 14(1)(d) mewn cysylltiad â gwneud darpariaeth ynghylch addysg drochi hwyr yng nghynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion.

## RHAN 4

## CYNLLUNIO ADDYSG A DYSGU CYMRAEG

*Y Fframwaith Cenedlaethol*

**23 Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio fframwaith ("Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg"), sy'n nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu cynigion strategaeth y Gymraeg mewn perthynas ag—

(a) addysg Gymraeg,

(b) dysgu Cymraeg (gydol oes), ac

(c) caffael y Gymraeg.

(2) Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at "strategaeth y Gymraeg" yn gyfeiriad at y strategaeth ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 78 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (a gweler adran 1 am yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn y strategaeth).

(3) Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg nodi, yn benodol, y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy—

(a) cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion;

(b) gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion;

(c) hybu addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" ac ysgolion categori "Dwy Iaith", a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hynny;

(d) sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg (drwy gyfeirio at y Cod a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6);

(e) annog dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng—

(i) addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, a

(ii) addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol.

(4) Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg nodi, yn benodol, y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer personau o bob oed yng Nghymru i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol—

(a) drwy ofal plant i'r rheini sydd o dan oedran ysgol gorfodol;

(b) drwy addysg feithrin;

(c) drwy addysg drydyddol;

(d) yn y gweithle ac yn y gymuned.

(5) Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg hefyd osod targedau ar awdurdodau lleol—

(a) at ddiben gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn ardal pob awdurdod lleol;

(b) sy'n adlewyrchu unrhyw darged (cenedlaethol) yn strategaeth y Gymraeg, gan gynnwys targedau—

(i) i gynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" yn eu hardaloedd;

(ii) i gynyddu nifer yr ysgolion sy'n ysgolion categori "Dwy Iaith" neu gategori "Prif Iaith – Cymraeg" yn eu hardaloedd;

(iii) i gynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" ac ysgolion categori "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" yn eu hardaloedd.

(6) At ddiben gosod targedau yn unol ag is-adran (5), rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg gynnwys—

(a) asesiad o'r addysg Gymraeg a ddarperir ar y pryd mewn ysgolion ymhob awdurdod lleol;

(b) dadansoddiad o'r swm o addysg Gymraeg y mae ei angen mewn ysgolion ymhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni unrhyw darged a osodir;

(c) asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg y mae ei angen ymhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni unrhyw darged a osodir.

(7) Caiff y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg hefyd osod targedau ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (gweler Rhan 5) sy'n adlewyrchu unrhyw darged yn strategaeth y Gymraeg yn ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso'u cynnydd, gan gynnwys targedau—

(a) i gynyddu nifer y bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu Cymraeg;

(b) i wella gallu yn y Gymraeg ymhlith pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu Cymraeg (drwy gyfeirio at y Cod a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6).

(8) Caiff y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol, neu ar gyfer awdurdodau lleol gwahanol.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adrannau (3) i (7) er mwyn diwygio'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, neu y caniateir ei gynnwys ynddo.

**24 Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol—

(a) cymryd pob cam rhesymol i gyflawni targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol mewn perthynas â'i ardal;

(b) ar gais Gweinidogion Cymru, ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru er mwyn—

(i) eu galluogi i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan adran 23(6);

(ii) pennu'r targedau o dan adran 23(5).

**25 Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach am gynnwys, adolygu a diwygio**

(1) Wrth lunio neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd, yn unol ag adran 23(3) a (4), dros gyfnodau o 10 mlynedd.

(2) Ond rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol er mwyn ystyried a oes angen diweddaru'r camau hynny.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu'r targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol yn unol ag adran 23(5) a (7) er mwyn ystyried a oes angen gosod targedau newydd.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny ar ôl cynnal adolygiad o dan is-adran (2) neu (3).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol neu lunio un newydd.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol, mae adrannau 24 a 26(1) a (2) yn gymwys fel y maent yn gymwys i lunio'r Fframwaith gwreiddiol.

(7) O ran y cyfnod o 5 mlynedd yn is-adrannau (2) a (3)—

(a) mae'r cyfnod cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y Fframwaith Cenedlaethol gerbron Senedd Cymru am y tro cyntaf, a

(b) mae pob cyfnod dilynol yn dechrau drannoeth y diwrnod y gosodir y Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig diweddaraf gerbron Senedd Cymru.

(8) Mae is-adran (7) yn gymwys i Fframwaith Cenedlaethol newydd fel y mae'n gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf.

**26 Ymgynghori a chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol**

(1) Wrth lunio neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) pob awdurdod lleol;

(b) yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (gweler Rhan 5);

(c) Comisiynydd y Gymraeg;

(d) Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

(f) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol;

(b) gosod y Fframwaith Cenedlaethol gerbron Senedd Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gerbron Senedd Cymru o dan is-adran (2)(b) cyn 31 Gorffennaf 2028.

**27 Adrodd ar y Fframwaith Cenedlaethol**

(1) Rhaid i'r adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 78(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys gwybodaeth am weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

(2) Rhaid i'r cynllun blynyddol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nodi sut y byddant yn gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

*Cynlluniau lleol*

**28 Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

(1) Rhaid i bob awdurdod lleol lunio cynllun ("cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg") sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol—

(a) yn hybu a hwyluso, yn ei ardal—

(i) addysg Gymraeg, a

(ii) defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion;

(b) yn cyflawni'r ddyletswydd a osodir arno o dan adran 24(2)(a) (cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg).

(2) Rhaid i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg nodi, yn benodol, y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd—

(a) i arfer ei swyddogaethau addysg—

(i) er mwyn gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion yn ei ardal,

(ii) er mwyn gwella'r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal, a

(iii) er mwyn sicrhau bod digon o ymarferwyr addysg yn gweithio yn ei ardal,

at ddiben cyflawni targedau a osodir arno yn rhinwedd adran 23(5)(b);

(b) i hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" ac ysgolion categori "Dwy Iaith" yn ei ardal;

(c) i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 22 mewn cysylltiad ag addysg drochi hwyr yn ei ardal;

(d) i hwyluso dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng—

(i) addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, a

(ii) addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol.

(3) Rhaid i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg hefyd gynnwys—

(a) gwybodaeth am yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol;

(b) adroddiad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r cynllun blaenorol (yn achos pob cynllun ac eithrio'r un cyntaf).

(4) Wrth lunio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) rhoi sylw i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg;

(b) ymgynghori ar ddrafft o'r cynllun â'r canlynol—

(i) ei awdurdodau lleol cyfagos;

(ii) pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;

(iii) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;

(iv) pennaeth pob sefydliad addysg bellach yn ei ardal;

(v) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal, y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, ac os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

(vi) Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(vii) yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol;

(viii) Comisiynydd y Gymraeg;

(ix) personau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**29 Cyfnod cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

(1) Mae pob cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn cael effaith am gyfnod o 5 mlynedd, ac mae—

(a) y cyfnod cyntaf o 5 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, a

(b) pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn yn dechrau drannoeth y diwrnod y mae'r cyfnod 5 mlynedd blaenorol yn dod i ben.

(2) Ond rhaid i bob cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg nodi'r camau y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd yn unol ag adran 28(2) dros gyfnod o 10 mlynedd.

**30 Cymeradwyo cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

(1) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg i Weinidogion Cymru ar ffurf drafft.

(2) Wrth gyflwyno'r cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar ffurf drafft, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a wnaed o dan adran 28(4)(b), ac ymateb yr awdurdod lleol i'r ymgynghoriad hwnnw.

(3) Mewn perthynas â chynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg a gyflwynir ar ffurf drafft o dan is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun,

(b) cymeradwyo'r cynllun ag addasiadau y cytunwyd arnynt â'r awdurdod lleol, neu

(c) gwrthod y cynllun a rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol i ailystyried y cynllun.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar ffurf drafft a gyflwynir o dan is-adran (1), rhaid i'r cyfarwyddyd—

(a) rhoi rhesymau dros y penderfyniad;

(b) pennu erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft pellach o'r cynllun i Weinidogion Cymru.

(5) Mae is-adrannau (3) a (4) yn gymwys i ddrafft pellach fel y maent yn gymwys i ddrafft a gyflwynir o dan is-adran (1).

**31 Cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'w gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg gael ei gymeradwyo, ei gyhoeddi a'i anfon—

(a) at gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yn ei ardal;

(b) at bennaeth pob sefydliad addysg bellach yn ei ardal;

(c) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal—

(i) at y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, at y corff crefyddol priodol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg a gymeradwyir.

**32 Adolygu a diwygio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

(1) Rhaid i awdurdod lleol adolygu ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn gyson, a'i ddiwygio os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) bod awdurdod lleol yn annhebygol o gyflawni targed sy'n gymwys iddo yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, a

(b) bod angen diwygio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol yn unol â hynny.

(3) Pan fo'r is-adran hon yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol—

(a) yn nodi eu bod yn ystyried bod awdurdod lleol yn annhebygol o gyflawni targed sy'n gymwys iddo yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried diwygio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn cael cyfarwyddyd o dan is-adran (3) ond yn penderfynu peidio â diwygio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg, rhaid i'r awdurdod lleol roi rhesymau i Weinidogion Cymru dros beidio â gwneud hynny.

(5) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu diwygio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg o dan is-adran (1) neu mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (3), rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru ar ffurf drafft.

(6) Mae adrannau 28 i 31 a gweddill yr adran hon yn gymwys i gynllun diwygiedig yn yr un modd ag y maent yn gymwys i'r cynllun gwreiddiol.

**33 Rheoliadau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol—

(a) ffurf a chynnwys cynllun;

(b) amseriad llunio cynllun;

(c) y broses ymgynghori wrth lunio cynllun drafft;

(d) gweithdrefn cymeradwyo cynllun;

(e) sut a phryd i gyhoeddi cynllun;

(f) adrodd ar weithredu'r cynllun.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth i alluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i lunio cynllun lleol strategol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath wneud darpariaeth sy'n cymhwyso adrannau 28 i 32 gydag addasiadau at y diben hwnnw.

**34 Diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

(1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Rhan 4 (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg).

(3) Yn adran 1 (trosolwg) hepgorer is-adrannau (13) a (14).

*Cyffredinol*

**35 Dehongli**

Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "addysg Gymraeg" yw—

(i) addysgu'r Gymraeg, a

(ii) addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg,

mewn ysgol, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol;

(b) mae cyfeiriadau at "ysgol", ac eithrio yn adrannau 28(4)(b) a 31(1), yn gyfeiriadau at ysgol a gynhelir sydd â disgyblion o oedran ysgol gorfodol;

(c) ystyr "addysg feithrin" yw addysg amser llawn neu ran-amser sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol (pa un a'i darperir mewn ysgolion neu mewn lleoliadau eraill);

(d) ystyr "gofal plant" yw unrhyw ffurf ar ofal neu weithgaredd o dan oruchwyliaeth ar gyfer plentyn, ac eithrio—

(i) gofal a ddarperir ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth i'r plentyn,

(ii) addysg (neu unrhyw weithgaredd arall o dan oruchwyliaeth) a ddarperir gan ysgol yn ystod oriau ysgol ar gyfer disgybl cofrestredig, neu

(iii) unrhyw ffurf ar ofal iechyd ar gyfer plentyn;

(e) mae cyfeiriadau at gategorïau iaith "Prif Iaith - Cymraeg", "Dwy Iaith" a "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" i'w darllen yn unol â Rhan 3;

(f) ystyr "ymarferydd addysg" yw—

(i) athro neu athrawes ysgol o fewn yr ystyr a roddir i "school teacher" yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), a

(ii) gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol o fewn yr ystyr a roddir gan Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).

## RHAN 5

### YR ATHROFA DYSGU CYMRAEG GENEDLAETHOL

**36 Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

(1) Sefydlir yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel corff corfforedig.

(2) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at yr "Athrofa Dysgu Cymraeg" yn gyfeiriadau at y corff hwnnw.

(3) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr Athrofa Dysgu Cymraeg.

*Amcan a swyddogaethau'r Athrofa Dysgu Cymraeg*

**37 Hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes**

(1) Amcan yr Athrofa Dysgu Cymraeg yw cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso'u cynnydd, fel bod rhagor o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith.

(2) Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg—

(a) rhoi cyfeiriad ac arweiniad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;

(b) darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg;

(c) cynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg at ddiben gwella dulliau addysgu'r Gymraeg;

(d) gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg—

(i) i'r gweithlu addysg,

(ii) yn y gweithle, a

(iii) i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol;

(e) gwneud trefniadau i wella lefelau gallu yn y Gymraeg—

(i) ymysg y gweithlu addysg,

(ii) yn y gweithle, a

(iii) ymysg dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol;

(f) dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith dylunio a datblygu o'r fath;

(g) datblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol;

(h) casglu a chyhoeddi data, o leiaf unwaith bob 12 mis, ar ddysgwyr Cymraeg sydd dros oedran ysgol gorfodol.

(3) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg hefyd—

(a) cydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg;

(b) rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu neu ddysgu Cymraeg;

(c) rhoi cymorth ariannol i unrhyw ddarparwr dysgu Cymraeg mewn perthynas ag addysgu neu ddysgu Cymraeg;

(d) gwneud unrhyw beth arall sy’n gysylltiedig â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg a hwyluso’u cynnydd, os yw’n ystyried bod hynny’n briodol er mwyn cyflawni targed a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg o dan adran 23(7).

(4) At ddiben diwallu gwahanol anghenion pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol ac sy’n dysgu (neu sy’n dymuno dysgu) Cymraeg, rhaid i’r ddarpariaeth dysgu Cymraeg a ddylunnir ac a ddatblygir yn unol ag is-adran (2)(f)—

(a) cynnwys amrywiaeth o lefelau a gweithgareddau dysgu;

(b) cynnwys amrywiaeth o leoliadau dysgu a dulliau astudio;

(c) cael ei threfnu yn y fath fodd fel ei bod yn hwyluso cynnydd dysgwyr drwy wahanol lefelau dysgu Cymraeg.

(5) Rhaid seilio’r lefelau dysgu y cyfeirir atynt yn is-adran (4)(a) ac (c) ar—

(a) y lefelau cyfeirio cyffredin a nodir yn y Tabl yn Atodlen 1, a

(b) y Cod a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6.

(6) Yn y Rhan hon, ystyr “darparwr dysgu Cymraeg” yw person sy’n addysgu Cymraeg, neu’n darparu addysgu Cymraeg, i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**38 Swyddogaethau ychwanegol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi swyddogaethau ychwanegol i’r Athrofa Dysgu Cymraeg.

(2) Rhaid i swyddogaeth a roddir o dan is-adran (1) ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg neu hwyluso’u cynnydd.

**39 Hybu cyfle cyfartal**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i’r Athrofa Dysgu Cymraeg hybu’r canlynol—

(a) cynyddu cyfranogiad mewn dysgu Cymraeg gan bobl dros oedran ysgol gorfodol sy’n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;

(b) cadw dysgwyr dros oedran ysgol gorfodol sy’n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol hyd at ddiwedd cyrsiau dysgu Cymraeg;

(c) lleihau unrhyw fylchau o ran cyrhaeddiad mewn dysgu Cymraeg rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol pan fo’r gwahaniaethau yn codi oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

(2) Yn yr adran hon, "grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol" yw grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg Gymraeg o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

**40 Hybu arloesedd a gwelliant parhaus**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg hybu'r canlynol—

(a) arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg;

(b) codi safonau o ran dysgu Cymraeg er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg, a gwella eu gallu.

(2) At ddibenion is-adran (1), rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg roi sylw i bwysigrwydd—

(a) sicrhau bod y rhai hynny sy'n addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol yn cael eu galluogi i ddarparu addysg o safon uchel;

(b) datblygiad proffesiynol parhaus y rhai hynny sy'n addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol;

(c) ystyried barn dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**41 Hybu cydlafurio mewn perthynas â dysgu Cymraeg**

Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg hybu'r canlynol—

(a) cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg;

(b) cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion yng Nghymru (nad ydynt yn ddarparwyr dysgu Cymraeg);

(c) cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg a darparwyr addysg drydyddol eraill yng Nghymru;

(d) cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg a chyflogwyr yng Nghymru.

**42 Hybu cydlynu mewn perthynas â dysgu Cymraeg**

Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg hybu'r canlynol—

(a) cydlynu yn narpariaeth dysgu Cymraeg yng Nghymru i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol;

(b) rhannu arfer orau mewn perthynas â dulliau addysgu a throsglwyddo'r Gymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**43 Cymhwyso safonau'r Gymraeg**

(1) Yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc.: safonau) i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1), yn y tabl, o dan y pennawd "Cyffredinol", ar ôl y cofnod ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("*The National Institute for Learning Welsh*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion". |

(2) Yn rheoliad 3 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 (O.S. 2017/90) (Cy. 33) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau a bennir o dan reoliad 2 a'r Atodlenni."

*Cyffredinol*

**44 Cynllun strategol**

(1) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg, ar gyfer pob cyfnod cynllunio, lunio cynllun strategol.

(2) Rhaid i'r cynllun strategol nodi sut y mae'r Athrofa Dysgu Cymraeg yn bwriadu—

(a) arfer ei swyddogaethau er mwyn cyflawni ei hamcan, a

(b) arfer ei swyddogaethau yn unol ag adrannau 39 i 42.

(3) Wrth lunio'r cynllun strategol rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg ymgynghori â'r personau canlynol—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Comisiynydd y Gymraeg;

(c) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

(d) y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;

(e) darparwyr dysgu Cymraeg sy'n cael cefnogaeth ariannol gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg;

(f) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(4) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gyflwyno'r cynllun strategol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 3 mis cyn dechrau'r cyfnod cynllunio y mae'n ymwneud ag ef.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun strategol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau y cytunir arnynt â'r Athrofa Dysgu Cymraeg.

(6) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gyhoeddi'r cynllun strategol sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(7) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg adolygu'r cynllun strategol a chyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, ac mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys i gynllun diwygiedig fel y maent yn gymwys i'r cynllun gwreiddiol.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod cynllunio" yw—

(a) cyfnod cyntaf sy'n dechrau â dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau ac yn dod i ben â dyddiad a bennir felly, a

(b) pob cyfnod dilynol o 3 blynedd neu unrhyw gyfnod arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

**45 Adroddiad blynyddol**

(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg—

(a) llunio a chyhoeddi adroddiad ("adroddiad blynyddol") ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno, a

(b) anfon copi o'i hadroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad blynyddol gerbron Senedd Cymru.

## RHAN 6

## CYFFREDINOL

### 46 Cyfarwyddydau a chanllawiau

(1) O ran cyfarwyddyd o dan Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf hon—

(a) rhaid cydymffurfio â'r cyfarwyddyd;

(b) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(c) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

(2) Rhaid i awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

### 47 Diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

(1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (newidiadau rheoleiddiedig)—

(a) ym mharagraff 4, yn lle "i 8" rhodder "a 6";

(b) hepgorer paragraff 7 (cyfrwng iaith – addysg gynradd) a'r croes-bennawd sy'n ei ragflaenu;

(c) hepgorer paragraff 8 (cyfrwng iaith – addysg uwchradd) a'r croes-bennawd sy'n ei ragflaenu;

(d) ym mharagraff 22, yn lle "i 25" rhodder "a 24";

(e) hepgorer paragraff 25 (cyfrwng iaith - ysgolion meithrin a gynhelir) a'r croes-bennawd sy'n ei ragflaenu.

### 48 Y Deddfau Addysg

Mae Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf hon i'w cynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

### 49 Dehongli

(1) Mae is-adran (3) a darpariaethau Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf hon i'w darllen fel petaent yn ddarpariaethau yn Neddf Addysg 1996 (p. 56), ac felly—

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "school year" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr ystyr a roddir i "compulsory school age" gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "swyddogaethau addysg" ("*education functions*") yw'r swyddogaethau a bennir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996;

mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr ystyr a roddir i “pupil referral unit” gan adran 19A(2) o Ddeddf Addysg 1996;

mae i “ysgol gynradd” yr ystyr a roddir i “primary school” gan adran 5(1) o Ddeddf Addysg 1996.

(2) Ond pan roddir i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ystyr sy’n wahanol i’r un a roddwyd iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae’r ystyr a roddir at ddibenion y ddarpariaeth honno i fod yn gymwys yn lle’r un a roddwyd at ddibenion Deddf Addysg 1996.

(3) Yn y Ddeddf hon—

mae i “addysg drydyddol” (“*tertiary education*”) yr ystyr a roddir yn adran 144 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1);

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, ystyr “corff llywodraethu” (“*governing body*”), yw’r pwyllgor (os oes un) a sefydlir i weithredu fel y pwyllgor rheoli ar gyfer yr uned o dan reoliadau a wneir o dan Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 a’r athro neu athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned;

mae i “cynllun cyflawni addysg Gymraeg” (“*Welsh language education delivery plan*”) yr ystyr a roddir gan adran 14(1);

mae i “defnyddiwr Cymraeg annibynnol” (“*independent Welsh user*”) yr ystyr a roddir yn y Tabl yn Atodlen 1;

mae i “defnyddiwr Cymraeg hyfedr” (“*proficient Welsh user*”) yr ystyr a roddir yn y Tabl yn Atodlen 1;

mae i “defnyddiwr Cymraeg sylfaenol” (“*basic Welsh user*”) yr ystyr a roddir yn y Tabl yn Atodlen 1;

ystyr “ysgol a gynhelir” (“*maintained school*”) yw—

(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,

(b) ysgol arbennig gymunedol, ac eithrio ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty,

(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu

(d) uned cyfeirio disgyblion;

ystyr “ysgol feithrin a gynhelir” (“*maintained nursery school*”) yw ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol ac nad yw’n ysgol arbennig.

(4) Yn y Ddeddf hon, mae i’r ymadroddion a ganlyn yr un ystyr ag a roddir i’r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31)—

“ysgol arbennig gymunedol” (“*community special school*”);

“ysgol gymunedol” (“*community school*”);

“ysgol sefydledig” (“*foundation school*”);

“ysgol wirfoddol” (“*voluntary school*”).

**50 Cyhoeddi**

(1) Pan fo'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd i gyhoeddi dogfen, rhaid i'r ddogfen gael ei chyhoeddi—

(a) ar ffurf electronig, a

(b) mewn unrhyw fodd arall y mae'r person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn ystyried ei fod yn briodol ar gyfer y rhai na allant gyrchu'r ddogfen ar ffurf electronig.

(2) Mae'r ddyletswydd i gyhoeddi'r ddogfen ar ffurf electronig yn ddyletswydd, pan fo gan y person hwnnw ei wefan ei hun, i'w chyhoeddi ar y wefan honno.

**51 Anfon dogfennau**

(1) Pan fo'r Ddeddf hon yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad, cyfarwyddyd neu ddogfen arall i berson neu anfon hysbysiad, cyfarwyddyd neu ddogfen arall at berson, caniateir rhoi neu anfon y ddogfen—

(a) drwy ei rhoi â llaw i'r person neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, ei rhoi â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa;

(b) drwy ei gadael ym man preswylio arferol y person neu ym man preswylio hysbys diwethaf y person neu, os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, yn y cyfeiriad hwnnw;

(c) drwy ei hanfon drwy'r post mewn llythyr wedi ei ragdalu—

(i) wedi ei gyfeirio at y person ym man preswylio arferol y person neu ym man preswylio hysbys diwethaf y person, neu

(ii) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, wedi ei gyfeirio i'r person yn y cyfeiriad hwnnw;

(d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (2).

(2) Yr amodau yw—

(a) bod modd i'r person yr anfonir y ddogfen ato gyrchu'r ddogfen,

(b) bod y ddogfen yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac

(c) bod modd i'r ddogfen gael ei defnyddio i gyfeirio ati yn ddiweddarach.

**52 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

(1) Rhaid i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol neu ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodedig;

(c) i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2)(c) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(4) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adrannau 3(1) a (2)(b), 5(2), 9(3), 10(1), 11(2)(b), (3)(a) a (b)(ii), 13(1), (2) a (4), 14(4), 20(4), 23(9), 38(1), 44(8)(b), a pharagraff 3(f) o Atodlen 2;

(b) rheoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(5) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

(6) Yn is-adran (4) ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

**53 Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) gwneud darpariaeth sy'n ddeilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu sy'n ganlyniadol ar unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

**54 Dod i rym**

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) y Rhan hon, ac eithrio adran 47;

(b) adran 1(1)(a);

(c) adran 1(3) i'r graddau y mae'n gymwys i adran 1(1)(a).

(2) Daw adrannau 1(4) a 5 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw adran 47 a darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

**55 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

## ATODLEN 1

*(a gyflwynwyd gan adran 5)*

### MATHAU O DDEFNYDDIWR CYMRAEG A LEFELAU CYFEIRIO CYFFREDIN

Mae'r Tabl yn atgynhyrchu (mewn perthynas â'r Gymraeg) y crynodeb o'r lefelau cyfeirio cyffredin a gynhwysir yn Atodiad 1 i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu - Cyfrol Cydymaith (2020), sy'n diweddaru Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd 2001 a ddatblygwyd gan Gyngor Ewrop (ac y cyfeirir ato ym Mhenderfyniad 14757/01 y Cyngor Ewropeaidd ar hybu amrywiaeth ieithyddol a dysgu ieithoedd yn y fframwaith ar weithredu amcanion Blwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001).

TABL 1

| **Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg** | **Lefelau cyfeirio cyffredin** | **Nodweddion cyffredinol** |
|---|---|---|
| Defnyddiwr Cymraeg hyfedr | C2 | Gallu deall bron pob math o destunau. Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, gan ail-lunio dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynol. Gallu ei fynegi ei hun yn ddigymell, yn fanwl-gywir ac yn rhugl iawn, gan wahaniaethu rhwng arlliwiau mwy cynnil o ystyr hyd yn oed mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth. |
| | C1 | Gallu deall ystod eang o destunau anodd, hirach, ac adnabod ystyr ymhlyg. Gallu ei fynegi ei hun yn rhugl ac yn ddigymell heb lawer o ymbalfalu amlwg am ddywediadau. Gallu defnyddio iaith yn hyblyg ac yn effeithiol at ddibenion cymdeithasol, academaidd a phroffesiynol. Gallu cynhyrchu testun clir, strwythuredig, manwl ar bynciau cymhleth, gan ddangos defnydd rheoledig o batrymau trefniadol, cysylltwyr a dyfeisiau cydlynu. |
| Defnyddiwr Cymraeg annibynnol | B2 | Gallu deall prif syniadau testun cymhleth ar bynciau diriaethol a haniaethol, gan gynnwys trafodaethau technegol yn ei faes arbenigedd. Gallu rhyngweithio yn eithaf rhugl a digymell sy'n golygu ei bod yn ddigon posibl rhyngweithio'n rheolaidd â defnyddwyr yr iaith darged heb roi straen ar y naill barti na'r llall. Gallu cynhyrchu testun clir, manwl ar ystod eang o bynciau ac egluro safbwynt ar bynciau cyfoes gan nodi manteision ac anfanteision opsiynau amrywiol. |
| | B1 | Gallu deall prif bwyntiau mewnbwn safonol clir ar faterion cyfarwydd y mae'n dod ar eu traws yn rheolaidd yn y gwaith, yn yr ysgol, mewn gweithgareddau hamdden ac ati. Gallu delio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle mae'r iaith yn cael ei siarad. Gallu cynhyrchu testun syml, cysylltiedig ar bynciau sy'n gyfarwydd neu sydd o ddiddordeb personol. Gallu disgrifio profiadau a digwyddiadau, breuddwydion, gobeithion ac uchelgeisiau, a rhoi rhesymau ac esboniadau yn gryno am safbwyntiau a chynlluniau. |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddiwr Cymraeg sylfaenol | A2 | Gallu deall brawddegau a dywediadau sy'n cael eu defnyddio'n aml ac sy'n gysylltiedig â'r meysydd mwyaf uniongyrchol berthnasol (er enghraifft, gwybodaeth bersonol neu deuluol sylfaenol iawn, siopa, daearyddiaeth leol, gwaith). Gallu cyfathrebu yn ystod tasgau syml ac arferol sy'n galw am gyfnewid gwybodaeth yn syml ac yn uniongyrchol am faterion cyfarwydd ac arferol. Gallu disgrifio'n syml agweddau ar ei gefndir, yr amgylchedd o'i gwmpas a materion mewn meysydd lle mae angen uniongyrchol. |
| | A1 | Gallu deall a defnyddio dywediadau pob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn gyda'r nod o ddiwallu anghenion o fath diriaethol. Gallu ei gyflwyno ei hun ac eraill ac yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau am fanylion personol fel ble mae rhywun yn byw, pobl y mae'n eu hadnabod a phethau sydd ganddo. Gallu rhyngweithio mewn ffordd syml cyhyd â bod y person arall yn siarad yn araf ac yn glir ac yn barod i helpu |

# ATODLEN 2

*(a gyflwynwyd gan adran 36)*

## YR ATHROFA DYSGU CYMRAEG GENEDLAETHOL

### RHAN 1

### STATWS

*Statws*

1 (1) Nid yw'r Athrofa Dysgu Cymraeg i'w hystyried yn was nac yn asiant i'r Goron nac ychwaith i'w hystyried yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

(2) Nid yw eiddo'r Athrofa Dysgu Cymraeg i'w ystyried yn eiddo i'r Goron nac yn eiddo a ddelir ar ei rhan.

### RHAN 2

### AELODAETH

*Aelodau*

2 (1) Aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg yw—

(a) person a benodir gan Weinidogion Cymru yn gadeirydd iddo;

(b) o leiaf 6 a dim mwy na 10 o bersonau eraill a benodir gan Weinidogion Cymru;

(c) ei brif weithredwr (gweler paragraff 6);

(d) o leiaf 1 ond dim mwy na 2 aelod arall o blith staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg a benodir gan y prif weithredwr a'r aelodau anweithredol.

(2) Yn yr Atodlen hon—

(a) cyfeirir at y cadeirydd ac aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg a benodir o dan is-baragraff (1)(b) ar y cyd fel "aelodau anweithredol";

(b) cyfeirir at y prif weithredwr ac aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg a benodir o dan is-baragraff (1)(d) ar y cyd fel "aelodau gweithredol".

(3) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un o'r aelodau a benodir o dan is-baragraff (1)(b) yn ddirprwy gadeirydd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-baragraff (1), drwy reoliadau, er mwyn rhoi rhif gwahanol yn lle unrhyw un neu ragor o'r rhifau a bennir; ond rhaid i nifer yr aelodau anweithredol bob amser fod yn fwy na nifer yr aelodau gweithredol.

(5) Wrth benodi aelod anweithredol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb—

(a) penodi personau sy'n meddu ar brofiad o fater, ac sydd wedi arddangos gallu mewn mater, sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau'r Athrofa Dysgu Cymraeg, a

(b) penodi personau sydd ag ystod o sgiliau a phrofiadau.

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol*

3 Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol os yw'r person—

(a) yn aelod o staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg,

(b) yn Aelod o'r Senedd,

(c) yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu o Dŷ'r Arglwyddi,

(d) yn aelod o awdurdod lleol,

(e) yn berson a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth, neu

(f) yn ddeiliad swydd, neu'n aelod o gorff neu'n aelod o staff corff, a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

*Telerau aelodaeth anweithredol*

4 (1) Mae aelod anweithredol yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) i (4) a pharagraff 5.

(2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 5 mlynedd.

(3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod anweithredol gael ei ailbenodi'n aelod anweithredol unwaith yn unig (ac mae is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ailbenodiad).

(4) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru—

(a) talu cyflog, treuliau a lwfansau i'w haelodau anweithredol;

(b) talu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol, neu mewn cysylltiad â hwy, a symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau anweithredol, neu mewn cysylltiad â hwy.

*Diswyddo etc. aelodau*

5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod anweithredol os ydynt wedi eu bodloni—

(a) bod y person yn anaddas i barhau'n aelod, neu

(b) nad yw'r person yn gallu arfer swyddogaethau aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru atal aelod anweithredol dros dro o'i swydd drwy hysbysiad os yw'n ymddangos iddynt y gall fod sail dros arfer y pŵer yn is-baragraff (1).

(3) Mae ataliad dros dro drwy hysbysiad o dan is-baragraff (2) yn cael effaith—

(a) am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) os na phennir cyfnod yn yr hysbysiad, hyd nes y rhoddir hysbysiad pellach gan Weinidogion Cymru i'r person sydd wedi ei atal dros dro.

(4) Caiff aelod anweithredol ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(5) Mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol os yw'r person hwnnw'n dod yn anghymwys (gweler paragraff 3).

(6) Mae person yn peidio â bod yn gadeirydd neu'n ddirprwy gadeirydd (yn ôl y digwydd) os yw'r person hwnnw'n peidio â bod yn aelod anweithredol.

(7) Mae person yn peidio â bod yn aelod gweithredol pan fo'n peidio â bod yn aelod o'r staff.

(8) Ni chaiff person sydd wedi ei atal dros dro o'i swydd o dan y paragraff hwn gymryd rhan yn nhrafodion yr Athrofa Dysgu Cymraeg, na thrafodion ei phwyllgorau na'i his-bwyllgorau, yn ystod y cyfnod y mae'r ataliad dros dro yn cael effaith.

## RHAN 3

## STAFF

*Y prif weithredwr*

6 (1) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gael prif weithredwr.

(2) Mae'r prif weithredwr cyntaf i'w benodi gan Weinidogion Cymru ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y maent yn penderfynu arnynt.

(3) Mae penodiadau dilynol i'w gwneud gan yr aelodau anweithredol ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y maent yn penderfynu arnynt.

(4) Ond ni chaiff yr aelodau anweithredol gytuno ar delerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau neu bensiwn y prif weithredwr heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(5) Mae'r prif weithredwr yn aelod o'r staff.

(6) Nid yw gwasanaeth fel y prif weithredwr yn wasanaeth yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth.

*Staff eraill*

7 (1) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg benodi aelodau eraill o staff.

(2) Caniateir i aelod o staff a benodir o dan y paragraff hwn gael ei benodi ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y mae'r Athrofa Dysgu Cymraeg yn penderfynu arnynt.

(3) Ond ni chaiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg gytuno ar delerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau neu bensiwn aelodau'r staff heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(4) Nid yw gwasanaeth fel aelod o staff a benodir o dan y paragraff hwn yn wasanaeth yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth.

## RHAN 4

## DIRPRWYO

*Pwyllgorau ac is-bwyllgorau*

8 (1) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn sefydlu is-bwyllgorau.

(3) Caiff pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r Athrofa Dysgu Cymraeg nac yn aelodau o'i staff, ond nid oes gan y personau hynny yr hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor (yn ôl y digwydd).

(4) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg dalu unrhyw dâl, treuliau a lwfansau a bennir gan Weinidogion Cymru i unrhyw berson—

(a) sy'n aelod o bwyllgor neu o is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, ond

(b) nad yw'n aelod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg, nac yn aelod o'i staff.

*Dirprwyo*

9 (1) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i unrhyw un neu ragor—

(a) o'i phwyllgorau,

(b) o'i his-bwyllgorau (pa un ai o dan baragraff 8(1) ynteu (2) y'u sefydlwyd),

(c) o'i haelodau, neu

(d) o aelodau ei staff.

(2) Caiff pwyllgor o'r Athrofa Dysgu Cymraeg ddirprwyo unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy ganddo—

(a) i is-bwyllgor o'r Athrofa Dysgu Cymraeg (pa un ai o dan baragraff 8(1) ynteu (2) y'i sefydlwyd),

(b) i aelod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg, neu

(c) i aelod o staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg.

(3) Caiff is-bwyllgor (pa un ai o dan baragraff 8(1) ynteu (2) y'i sefydlwyd) ddirprwyo unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy ganddo—

(a) i aelod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg, neu

(b) i aelod o staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg.

(4) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg—

(a) cyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor na chaiff ddirprwyo swyddogaeth a bennir yn y cyfarwyddyd;

(b) cyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyaeth a bennir yn y cyfarwyddyd;

(c) cyfarwyddo pwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gan y pwyllgor o dan is-baragraff (5).

(5) Caiff pwyllgor o'r Athrofa Dysgu Cymraeg sydd wedi dirprwyo swyddogaeth i is-bwyllgor—

(a) cyfarwyddo'r is-bwyllgor na chaiff ddirprwyo'r swyddogaeth honno;

(b) cyfarwyddo'r is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyo a wnaed ganddo o ran y swyddogaeth honno.

(6) Dirprwyir swyddogaeth o dan y paragraff hwn i'r graddau ac ar y telerau a bennir gan y person sy'n dirprwyo, ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan is-baragraffau (4) a (5).

(7) Nid yw dirprwyo swyddogaeth o dan y paragraff hwn yn atal yr Athrofa Dysgu Cymraeg (na'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, yn ôl y digwydd) rhag arfer y swyddogaeth o dan sylw.

(8) Nid yw dirprwyo swyddogaeth o dan y paragraff hwn yn effeithio ar gyfrifoldeb yr Athrofa Dysgu Cymraeg dros arfer y swyddogaeth o dan sylw.

## RHAN 5

## GWEITHDREFN ETC.

*Gweithdrefn*

10 (1) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg wneud rheolau i reoleiddio ei gweithdrefn ei hun (gan gynnwys cworwm).

(2) Rhaid i'r rheolau ddarparu nad yw cyfarfod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg yn ffurfio cworwm oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

(3) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg wneud rheolau i reoleiddio gweithdrefn ei phwyllgorau a'i his-bwyllgorau (gan gynnwys cworwm).

(4) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg, ei phwyllgorau a'i his-bwyllgorau bennu eu gweithdrefn eu hunain (gan gynnwys cworwm), yn ddarostyngedig i unrhyw reolau a wneir gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg o dan is-baragraff (3).

*Dilysrwydd trafodion a gweithredoedd*

11 Nid yw'r canlynol yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion a gweithredoedd yr Athrofa Dysgu Cymraeg (na'i phwyllgorau a'i his-bwyllgorau)—

(a) unrhyw swydd wag ymhlith aelodaeth yr Athrofa Dysgu Cymraeg, na

(b) unrhyw ddiffyg o ran penodi aelod.

*Sêl*

12 Os oes gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg sêl, rhaid iddi gael ei dilysu drwy lofnod—

(a) aelod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg sydd wedi ei awdurdodi at y diben hwnnw, neu

(b) aelod o staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg sydd wedi ei awdurdodi at y diben hwnnw.

*Tystiolaeth*

13 Mae dogfen yr honnir ei bod wedi ei gweithredu'n briodol o dan sêl yr Athrofa Dysgu Cymraeg neu wedi ei llofnodi ar ran yr Athrofa Dysgu Cymraeg i'w derbyn fel tystiolaeth ac, oni phrofir i'r gwrthwyneb, i'w chymryd fel pe bai wedi ei gweithredu neu ei llofnodi felly.

RHAN 6

MATERION ARIANNOL

*Cyllid*

14 Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau drwy grant neu fenthyciad i'r Athrofa Dysgu Cymraeg o unrhyw symiau, ac ar unrhyw adegau, ac yn unol ag unrhyw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

*Swyddog cyfrifyddu*

15 (1) Prif weithredwr yr Athrofa Dysgu Cymraeg yw ei swyddog cyfrifyddu.

(2) Os nad yw'r prif weithredwr yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg enwebu aelod o'i staff i fod y swyddog cyfrifyddu cyhyd ag y mae'r prif weithredwr yn methu â chyflawni'r cyfrifoldebau.

(3) Os yw swydd y prif weithredwr yn wag, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg enwebu aelod o'i staff i fod y swyddog cyfrifyddu cyhyd ag y mae swydd y prif weithredwr yn parhau yn wag.

(4) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid yr Athrofa Dysgu Cymraeg, y cyfrifoldebau a bennir am y tro gan Weinidogion Cymru.

(5) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill)—

(a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon;

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid yr Athrofa Dysgu Cymraeg;

(c) cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau'r Athrofa Dysgu Cymraeg;

(d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Senedd Cymru neu ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

*Cyfrifon*

16 (1) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

(2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—

(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad;

(b) y modd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno;

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy;

(d) gwybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r datganiad.

(3) Heb fod yn hwyrach na 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gyflwyno ei datganiad o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol honno—

(a) i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a

(b) i Weinidogion Cymru.

*Archwilio*

17 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg o dan baragraff 16(3)(a).

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei ardystio ac adrodd arno;

(b) darparu copi o'r datganiad o gyfrifon ardystiedig a'r adroddiad i'r Athrofa Dysgu Cymraeg.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 4 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir y datganiad o gyfrifon ("y cyfnod o 4 mis"), osod gerbron Senedd Cymru—

(a) copi o'r datganiad o gyfrifon ardystiedig a'r adroddiad, neu

(b) os nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio â pharagraff (a), ddatganiad i'r perwyl hwnnw.

(4) Pan fo datganiad wedi ei osod o dan is-baragraff (3)(b), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r datganiad o gyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 4 mis.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-baragraff (2), rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio a aed, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu'r gwariant hwnnw, ac adrodd ar hynny.

*Archwilio'r defnydd o adnoddau*

18 (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithiol ac effeithlon y defnyddiwyd adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Athrofa Dysgu Cymraeg.

(2) Ond nid yw hynny'n rhoi'r hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gwestiynu rhinweddau amcanion polisi'r Athrofa Dysgu Cymraeg.

(3) Cyn cynnal archwiliad rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) ymgynghori â Senedd Cymru, a

(b) ystyried barn Senedd Cymru ynghylch a ddylid cynnal archwiliad ai peidio.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi adroddiad o ganlyniadau archwiliad a gynhelir o dan y paragraff hwn, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.

*Cofrestr buddiannau*

19 (1) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau ei haelodau.

(2) Rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg gyhoeddi cofnodion a gofnodir yng nghofrestr buddiannau'r aelodau.

*Pwerau atodol*

20 (1) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod—

(a) yn briodol at ddibenion ei swyddogaethau neu mewn cysylltiad â hwy, neu

(b) yn gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol i'w harfer.

(2) Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg (ymhlith pethau eraill)—

(a) caffael neu waredu tir neu eiddo arall;

(b) ymrwymo i gontractau;

(c) buddsoddi symiau;

(d) derbyn rhoddion o arian, tir neu eiddo arall.

(3) Ond ni chaiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg gael benthyg arian heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

RHAN 7

DIWYGIAD CANLYNIADOL

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)*

21 Yn adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ystyr "Welsh public records"), yn is-adran (2), ar ôl paragraff (k), mewnosoder—

"(kza) the National Institute for Learning Welsh,".